
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 33 - Haf 2015

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

## GOLYGYDDOL

Cafwyd ymateb da i'r rhifyn diwethaf (rhif 32) o Llygad Barcud, oedd y cyntaf ar ei newydd wedd. Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r gwell ansawdd o ran printio a lluniau.

Cofiwch, rydym yn chwilio am gyfraniadau, boed yn lluniau, cofnodion diddorol neu ymholiadau. Hefyd, os gwelwch yn dda, unrhyw atgofion difyr am Ted Breeze Jones.

**Cynnwys:**


Adar Awstralia (ii) *Twm Elias*.................................................. 3
Delor y Coed *E V Breeze Jones* ............................................. 11
Gwalch Glas yn yr ardd *Gareth Jones* .................................. 12
Y Dewraf, Eiddilaf o'n Hadar Môr (ii) *Ieuan Bryn* ................. 13
Taith Dyffryn Conwy ........................................................ 17
Taith Dyffryn Mawddach ................................................... 18
Taith Martin Mere ........................................................... 19
Taith Coed Felenrhyd ....................................................... 20
Taith Abergwyngregyn ...................................................... 21
Cudyll Coch Pen Llŷn *Gareth Jones* .................................... 22
Rhaglen Medi-Rhagfyr 2015 ............................................... 24


*Llun y clawr: Gareth Jones – gweler yr hanes ar dud.12*

**Swyddogion**


**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd + Ysgrifennydd Aelodaeth**: Brian Paul
Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT, 01766 770 500
**Cyd-ysgrifenyddion**: Huw Dafydd + Gareth T Jones (pwllheli@gmail.com)

**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk


Cynigir gostyngiadau i aelodau'r Gymdeithas yn siop -
**Cotswold Outdoor, Betws y Coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# ADAR AWSTRALIA (ii)



*Dyma rai o adar y gerddi yn Canberra – cocatŵs a ch'lomen gribog*

**Yn ystod fy neufis yn Awstralia, Gorffennaf ag Awst y llynedd** (*gw. Llygad Barcud 32*)**, cefais y fraint o fynd i aros am fythefnos i Canberra, prifddinas Awstralia, gyda chyfeillion, sef Peter a Sue Edwards, nad oeddwn hyd y gwyddwn erioed wedi eu cyfarfod o'r blaen. Bu Peter yn gyfrannwr selog i Fferm a Thyddyn ers rhai blynyddoedd ac ef hefyd yw awdur Anifeiliaid Awstralia, sydd yn rhestr o enwau Cymraeg ar adar, mamaliaid, amffibiaid ac ymlusgiaid Awstralia. Bu ei enwau adar Awstralia o gymorth mawr inni pan oeddem yn paratoi Rhestr o Enwau Cymraeg ar Adar y Byd a chewch ei gweld pan fydd cyswllt iddi ar wefan Cymdeithas Ted yn y dyfodol agos.**

Erioed wedi eu cyfarfod o'r blaen? Doedd hynny ddim yn wir oherwydd dangosodd Peter ddyddiadur imi o 1979 yn nodi ein bod wedi cyfarfod am amser byr yng Nghorris pan oedd ef a'r teulu yng Nghymru yn y flwyddyn honno. Roeddwn wedi anghofio'n llwyr.

***Gorffennaf 24ain:*** hedfan o Cairns. Mae Canberra drwyddi draw yn ddinas agored braf efo clytawith helaeth o goetiroedd a llecynnau agored llawn bywyd gwyllt. Rhyfeddod oedd gweld cangarŵs llwydion yn pori'n braf, cocatŵs a pharotiaid lliwgar yn hedfan uwchben ar y ffordd o'r maes awyr. Cefais ar ddeall bod y cangarŵs ar adegau y medru bod yn beryg bywyd i fodurwyr oherwydd os y'u dychrynir byddant yn llamu ar draws y ffordd i geisio dianc – a does dim gwaeth na chlamp o gangarŵ mawr yn glanio yn hollol ddi-rybudd reit o

flaen y car! Am y digwydda damweiniau yn bur aml mae awdurdodau'r ddinas yn ceisio rheoli niferoedd y llamwyr llwydion. Gwaith anodd iawn oherwydd daw anifeiliaid newydd yn gyson o'r wlad o gwmpas i lenwi'r bylchau.

Tŷ yn un o'r maestrefi deiliog sydd gan Peter a Sue, efo gardd gauedig yn y cefn. Yn fuan ar ôl cyrraedd adre roedd yn amser bwydo'r adar. Ond yn hytrach na adar bach sy'n bwyta cnau a hadau fel yng Nghymru mae'r adar ddaw i'r gerddi yma yn dra gwahanol. Roedd y ddau gynta i'r fei yn aelodau o deulu'r brain: y bioden, oedd yn ddu a gwyn a'r cyrawong, oedd yn ddu bron i gyd, efo llygaid melyn llachar a bachyn go beryg ar flaen y pig. Roedd galwad y cyrawong yn hollol anhygoel, fel y clychau bambŵ sy'n hongian ger ddrws ambell dŷ. Cerwch ar Gwgl i chwilio, mae'n werth gwrando arno.



*Y Cyrawong – rheswm arall pam nad oes llawer o adar bach o gwmpas y gerddi!*

Bu Peter a Sue yn eu bwydo o'r llaw efo briwgig wedi ei rowlio'n beli bychan. Tebyg y byddai awdurdodau'r ddinas yn gwgu ar hyn am y gall y piod yn arbennig fod yn adar go beryglus yn y tymor nythu. Cyn imi ddwad i'r pen yma o'r byd roedd Gruff fy mrawd yng



*Sue yn bwydo'r bioden*

nghyfraith wedi rhoi benthyg llyfr imi am greaduriaid peryglus Awstralia: nadroedd, pryfed cop, crocodeil ayyb. Rhif 10 yn y rhestr oedd y bioden! Sail hynny yw y bydd hon yn ymosod yn ffyrnig iawn ar unrhyw un ddaw'n agos i'w nyth; a dim ryw slap fechan efo adain ar y pen ond yn syth amdanoch chi gan dargedu'r wyneb a'r llygaid. Mae sawl un wedi colli llygad drwy bigiad mileinig hon. Synnwyr cyffredin yw'r amddiffynfa orau yn achos pob creadur peryglus; os ydach chi'n gwybod ei bod yn nythu gerllaw, wel cadwch eich pellter.

Y nesa i gyrraedd oedd cocatŵs cribfelyn. Mae tua dwsin a mwy o'r rhain yn cyrraedd bob dydd o fewn ychydig funudau i'r amser bwydo arferol. Byddant yn cael grawn ŷd ar lawr yr ardd ac yn bwydo'n drefnus a goddefgar yng nghwmni ryw glomen gribog neu ddwy. Deuai galà (cocatŵ penwridog) bron bob dydd



*C'lomen gribog a galà*




Rosela rhuddgoch ar wal yr ardd

ac unwaith neu ddwy gwelais rosela rhuddgoch hardd yma hefyd.

Dydy'r 'cocis' ddim yn boblogaidd iawn am eu bod yn fandaliaid dinistriol, yn llawer rhy hoff o gnoi a malurio pob dim pren neu blasting, e.e. ffensus, dodrefn gardd, ymyl y to a fiw ichi feddwl am roi paneli solar ar y to am y bydd y 'cocis' wedi eu malu'n racs i fewn dim.

***Gorff. 27ain***: cinio dydd Sul Cymdeithas Cymry Canberra yn y Stirling Club. Mae Peter yn Llywydd y Gymdeithas a chefais innau'r fraint o ymuno yn sawl un o'i gweithgareddau dros y fythefnos nesa. Criw hwyliog a chroesawgar iawn.



Peter Edwards

Yma yn y Stirling Club y cyfarfyddais â John Bundock, o'r Rhondda'n wreiddiol, addawodd ddangos dipyn o fywyd gwyllt yr ardal imi. Felly, am 6.30 y noson honno, fel yr oedd yn dechrau tywyllu, dyma fynd allan i chwilio am anifeiliaid y nos.

Lle da i gychwyn oedd campws y Brifysgol lle roedd llawer o goed hynafol. Roedd digon o gangarŵs llwydion a chwningod yn pori'r lawntiau, ond yr hyn oedd John am ddangos imi oedd y poswm.

Dringwr coed tua maint cath go fawr ydy' hwn, yn cuddio mewn boncyff gwag yn ystod y dydd ac yn dwad allan i chwilio am fwyd wedi iddi nosi. Y lle sicraf i'w weld oedd o gwmpas y biniau yng nghefn bwyty Undeb y Myfyrwyr. Ac yn wir i chi roedd un yno ymysg canghennau un



Y Poswm yn dynesu

o'r coed. 'Doedd o fawr o dro cyn dwad i lawr am rêd i fachu gweddillion prydau'r efrydwyr. Mi fedrais fynd yn ddigon agos i gyffwrdd ei gefn o am eiliad wrth iddo sglaffio'r seigiau.

Y nesa ar y rhestr oedd y wombat, creadur llwydfrown, sgwâr, cyhyrog, ychydig yn fwy na mochyn daear, efo pen 'fatha coala ac yn gryf fel arth. Felly i ffwrdd a ni

i gefn gwlad i chwilio am y cyfryw greadur. “Dan ni’n siwr o weld wombat yn croesi’r ffordd”, meddai John. Ond dim golwg. Galw mewn sawl man a gweld olion llwybrau, dauerydd a baw ffres ymhobman. Digon o rŵs llwydion, ond dim wombat! Mi fuom allan sawl noson wedi hynny ond efo’r un canlyniad. Yr unig un welais i oedd corff ar ochr y ffordd, oedd wedi cael clec gan gerbyd!

***Gorff. 28ain***: John yma am 8.15yb. Allan a ni i Wlyptir Tidbinbilla yn y mynydd-dir. Roedd angen cychwyn yn gynnar am mai gyda’r wawr neu’r machlud yw’r amser gorau i weld platipws. Wel dyma le hyfryd. Roedd hi’n oer iawn ond niwl y bore dros y pyllau dŵr a’r gwelyau hesg yn creu awyrgylch hyfryd. A dacw nhw, sawl platipws yn brigo i’r wyneb cyn plymio yn ôl i’r dyfnder.



*P’le mae’r platipws? (llun: J Bundock)*

Wrth grwydro’r rhan yma o’r warchodfa dod ar draws y brolga, aelod o deulu’r garannod. Yn ôl un o chwedlau’r aborijineaid, merch ifanc hardd a dawnswraig osgeiddig iawn oedd Brolga a phan wrthododd hi gynigion serchus un o ddewiniaid pwerus y llwyth fe’i trowyd ganddo yn golofn o fŵg yn troelli. Ymhen amser daeth Brolga yn ei hol ar ffurf aderyn tal gosgeiddig â’i liw llwyd yn ein hatgoffa o liw’r golofn fŵg. Yr un peth na lwyddodd y dewin i’w ddileu oedd cariad Brolga tuag at ddawnsio. Dyna pam fod garanod pan yn paru yn dawnsio mor hynod o osgeiddig hyd heddiw.



*Y brolga yn Tidbinbilla*

Ar y ffordd i ran arall o Warchodfa Tidbinbilla dyma stopio’n sydyn! Eryr cynffon-letem anferth yn gwledda ar gorff ryw greadur oedd wedi cael clec ar ochr y ffordd. Allan o’r car a ni’n ofalus, John yn dweud: “Mae’r ‘weji’ yn gyndyn o adael ei fwyd. Gyda gofal mi gawn fynd yn reit agos”. Ond fel yr oeddem yn dwad rownd llwyn i dynnu llun dyma bioden yn dwad fel bwled o rywle a mynd yn syth amdano. Ei heglu wnaeth yr eryr!

Mewn rhan arall o Warchodfa Tidbinbilla roedd gwelltir agored efo heidiau enfawr o rŵs llwydion yn pori ar gwr coedwig ewcalyptus fawr. Cawsom olwg ar ddau fath o robin, y fflamliw ar y tir agored a’r melyn yn y coetir.



*Robin fflamliw (llun J Bundock)*



*Robin melyn dwyreiniol (llun: J Bundock)*

Ar y ffordd adre gweld emiw mewn lle picnic. Aros ei gyfle mae'r hen dderyn: pan ddaw pobl yma am farbi-ciw bydd yr emiw yn aros ei gyfle a bachu stecan oddiar y BB-ciw a rhedeg i ffwrdd efo hi!



*Emiw, a ryw foi efo cap Llên Natur (llun: J Bundock)*

***Gorff. 29ain:*** allan eto am 8.30yb efo John a'i gyfaill Trefor i ran arall o ddyffryn Tidbinbilla. Ein nod y tro hwn oedd copa Gibraltar Rocks; meini mawr crynion o wenithfaen yn codi gannoedd o droedfeddi uwchlaw gallt fawr o goed iwcalypt ac yn lecyn sanctaidd i bobl y Ngunnawal. Roedd yn braf a chlir a'r Snowy Mountains yn wyn dan eira yn y pellter. Braidd yn wyntog oedd hi, felly chydig iawn o adar welwyd: digon o rŵs llwydion hyd y gwaelodion ac arwyddion o gwmpas y creigiau ar y top bod gwenwyn wedi ei osod i ddifa llwynogod, gyda'r esboniad eu bod yn peryglu walabi'r creigiau, creadur bychan sydd bellach bron â'i ddifodi'n llwyr gan yr hen gadno coch.

***Gorff. 30ain:*** allan am 8.30yb efo John eto i chwilio am y wombat 'na! I bwll Kambah ar yr Afon Murrumbidgee i'r de orllewin o Canberra. Warin o dyllau wombat, olion traed a'u baw ymhobman ond dim lwc eto fyth! Mae 'wombat' yn derm ddilornus am rywun styfnig a di-drefn – dwi'n cytuno.

Draw wedyn i wlyptir Jerrabomberra ar yr Afon Molonglo, sydd fwy neu lai ynghanol dinas Canberra. Roedd llyn mawr yma yn wreiddiol ond llenwyd llawer ohonno i adeiladu'r ddinas. I wneud i fyny am hynny roedd y Cyngor Dinesig wedi creu cyfres o warchodfeydd i fywyd gwyllt – yn glytwaith o byllau, gwelyau hesg coetiroedd a pharcdir helaeth, efo llwybrau a chuddfannau gwylio

adar. Yma y cawsom ni olwg dda ar deulu bychan o gainddrywod godidog (*superb fairy wren*).



*Y cain-ddryw godidog – wel am beth bach del (llun: J Bundock)*

Adre ddechrau'r p'nawn a chrwydro i'r Ganolfan Siopa leol i gael un o brydau bwyd enwocaf Awstralia: yr 'Aussie Burger' – anghenfil o beth am $10 (tua £5), blasus eithriadol ac yn llawn salad a thafell o fetys coch. Iym! Y noson honno rhoi sesiwn o straeon i ddosbarth Cymraeg Cymdeithas Cymry Canberra yn y Clwb Almaenig.

***Gorff. 31ain:*** 11.30yb, cyfarfod Dennis Nichols yn yr Ardd Fotanegol Genedlaethol. Dennis yn aelod o'r Gymdeithas ac yn dywysydd swyddogol yn y gerddi. Treulio diwrnod hyfryd yn ei gwmni a chael lluniau da o amryw o adar a'r fraint o gael golwg ar 'wasanaethfa' aderyn deildy.

Yma bydd y ceiliog glas tywyll rhyfeddol hwn yn creu llwyfan i ddawnsio a dangos ei ddoniau. Bydd yn casglu popeth glas y daw ar eu traws; plu, topiau poteli plasig ac yn eu gosod yn ofalus i ddangos i'r ieir cymaint o geiliog ydi o. Bydd yr ieir yn ciwio i fyny i gael mynedfa i'r



*Aderyn deildy sidan – y ceiliog*



*Gwasanaethfa'r deryn deildy: y gorlan garu, o ddail pîn wedi eu sticio i'r ddaear, ar y dde*

gorlan garu fechan yn y canol, lle derbyniant wasanaeth y ceiliog cyn mynd i'w nythod i ddodwy. Ia, ciwio i gael cywion fyddan nhw. Does gan y ceiliog ddim rhan o gwbl mewn codi'r nyth, magu'r cywion na dim arall heblaw ei 'briod waith' ac amddiffyn ei lwyfan caru rhag ceiliogod eraill sydd byth a beunydd yn ceisio dwyn ei dameidiau gleision! Weithiau pan fydd ceiliog yn mynd ar gyrch i ddwyn o ddeildy ei gymydog bydd yn dychwelyd i weld ei lwyfan ei hun ar chwâl!

Allan eto gyda'r nos i Bwll Kambah i chwilio am y blydi wombat 'na efo John. Dim golwg.

***Awst 1af***: newyddion drwg. Sue wedi colli ei brawd ac yn mynd at y teulu ond yn mynnu fy mod yn aros am rai dyddiau eto.

***Awst 2il:*** cyfarfod Dennis ganol y bore, y tro hwn i fynd rownd yr Arboretwm Genedlaethol newydd, nepell o'r Ardd Fotanegol. Daeth eryr cynffon-letem anferth uwch ein pennau, gyda gosgordd o tua dwsin o gyrawongs o'i gwmpas yn cadw pellter o 2-3 llath oddiwrtho. Y cwbwl yn hollol ddistaw ac yn y diwedd yr hen eryr yn cael llond bol o'i osgordd ac yn troelli am yr entrychion o'u cyrraedd. Roedd y curawongs yn gwybod yn iawn i gadw'u pellter am fod cynffon fawr lydan yr eryr yn ei alluogi i wneud tro pedol sydyn iawn yn yr awyr a thaflu crafanc i gyfeiriad unrhyw un ddeuai'n rhy agos.



*Yr eryr a'i osgordd*

Ddiwedd y p'nawn mynd i dŷ Mike Walters a'i deulu (Meic yn wreiddiol o Waunfawr a Bethesda). Amryw o'r Gymdeithas Gymraeg yno yn cael barbi-ciw a chyfle i minnau draddodi a thrafod, drwy gyfrwng Sgeip, ail ran y 'Bwletin o Bendraw'r Byd' i Galwad Cynnar yng Nghymru bell.

***Awst 3ydd:*** dal y Murray Coach i Sydney am 7.45yb. Taith o dair awr drwy dir agored iawn. Y ffermydd (gwartheg Angus a defaid) yn cynyddu yn eu maint wrth ymbellhau o'r dinasoedd a phrin iawn oedd y pentrefi rhyngddynt.

Ymweld ag Amgueddfa Awstralia yn p'nawn ac am dro drwy barc dinesig Hyde Park gyda'i goed anferth, rhodfeydd hardd a ffownten anghygoel. Difyr gweld yr ibis gwyn yn begera bwyd oddiar



*Ibis yn begera. Dim syniad pwy oedd y gŵr, ond o leia mi oedd o'n gwennu*

bobl yn cael eu picnic ar y lawntiau.

Rhaid oedd ymweld ag Amgueddfa Sydney nepell o'r harbwr i weld dyfyniad o waith Rhys Jones ger y fynedfa. Daeth Rhys (o Flaenau Ffestiniog yn wreiddiol) yn Athro Anthropoleg yma ac mae'r dyfyniad yn cyferbynnu rhwng argraff Captain Cook a'i griw pan yn cyrraedd yma gydag ymdeimlad y brodorion oedd yn eu gwylio o gysgod y coed. I'r gwynion dyma wlad estron, beryglus ac anwaraidd ond i'r brodorion dyma eu cynefin, eu cynhaliaeth a ffynhonnell eu breuddwydion.

***Awst 4ydd:*** brecwast anferth

(boliad ci a bery dridiau!) yn y gwesty. Am dro drwy Erddi Botanegol y ddinas a chael golwg ryfeddol o dda ar adar oedd wedi hen arfer â phobl ac yn eitha dof. Wrth gyrraedd y Tŷ Opera, sydd yng nghwr ucha'r Gerddi, gyda'r Bont fawr yn y cefndir, sylwi ar griw o blant yn chwarae ar y lawnt o gwmpas coeden anferth. Roedd y plant wedi gadael eu cotiau a'u bagiau bwyd o gwmpas boncyff y goeden. A phwy oedd yn manteisio ar hynny? Wel clamp o gigfran fawr. Deuai'r deryn, oedd yn amlwg yn hen law ar y grefft, i lawr o'r canghennau a gwyddai'n iawn sut i agor bagiau i gael gafael ar frechdanau'r plant. Gwaredu'r bara a chario'r cig i'w gladdu dan ddail ryw ddegllath i ffwrdd.



*Y gigfran a gredai mewn rhannu!*

Daeth yn ôl sawl tro ac er bod y plant yn ceisio ei chadw draw roedd yr hwyl a'r haul ar y lawnt yn ormod o dynfa i neb gadw gwarchodaeth yn rhy hir. Deuai'r frân, yn ei lifrau o liw'r cysgodion, yn ei hol o fewn ychydig eiliadau i'r 'giard' droi ei gefn.

Trip ar y fferi i Manly yn y p'nawn i weld ehangder harbwr naturiol Sydney. Wedi gobeithio gweld mwy na jyst y wylan arian oedd yn gyffredin ar y glannau.



*Gwylan arian ar y môr ym Manly*

Mae hon tua'r un maint a'n gwylan benddu ni ac yn dipyn mwy moesgar o gwmpas y caffis awyr agored yn y dre na'n gwylan benwaig fawr ladronllyd ni adra. Chydig iawn o wahanol wylanod geir yma yn Awstralia. Adre i Canberra erbyn 8.00yh

***Awst 5ed:*** allan gyda'r wawr efo John a Trefor at y 'Graig Goch', clogwyn uchel yng Ngheunant Murrambigee. Roedd hi'n oer iawn a barugog – y tymheredd tua -6˚C dros nos. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r 'body-warmer' gefais i gan y Gymdeithas Gymraeg am roi cwpwl o sgyrsiau iddyn nhw. Roedd wenoliaid yn clwydo ar y clogwyn.



*Tystiolaeth! – yma y bu wombat*

***Awst 7fed:*** dychwelyd i Cairns. Roeddwn wedi cael croeso a charedigrwydd rhyfeddol gan Peter,

Sue a Chymdeithas Cymry Canberra, yn cynnwys anrheg gan John Bundock o lyfrgell Yr Athro Rhys Jones: argraffiad cynta o lyfr emynau William Williams Pantycelyn, 1795. “Cer a fo adre i Gymru, yn fanno y dylsai fod” meddai John. Mae’r copi hwnnw bellach yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr.

**Twm Elias**

## DELOR Y COED



*Delor y coed (Llanfrothen 2015) Llun: Gareth Jones*

Nid oes berygl i’r adarydd ieuengaf gamgymryd y Delor am unrhyw aderyn arall; cynffon fer sydd ganddo a phig fain tebyg i big cnocell. Streipen ddu amlwg sydd drwy’r llygad, llwydlas yw rhannau uchaf y corff, melyngoch oddi tano a gwyn yw’r gwddf a’r bochau. Nid yw’r gynffon fer yn help iddo ddringo. Rhaid pwysleisio’r ffaith mai’r Delor yw’r unig aderyn yn ein gwlad a fedr gerdded i lawr boncyff coeden; gall amryw gerdded i fyny, ond camp arall yw cerdded i waered.

Tynnais y darlun pan gariai fwyd i’w gywion mewn nyth yn un o ganghennau derwen hynafol. Roedd ceg y twll yn eang, yn rhy lydan i blesio’r Delor, ac yn ôl ei arfer, casglodd laid a mynd ati i blastro’r fynedfa. Fel hyn fe gafodd ddrws ffrynt llai a thaclusach ac un na roddai fynedfa i adar eraill.

Cymer yr wyau ryw 14 i 15 niwrnod i ddeor, a threulia’r cywion dair wythnos yn y nyth. Difyr yw sylwi bod ar y cywion angen cymaint o amser cyn mentro dros y trothwy, ond nid oes brys o gwbl arnynt! Mae twll mewn boncyff a ffrâm drws o laid caled yn noddfa ddiogel. Ar y llaw arall, pythefnos brin a dreulia cywion yr adar mân sy’n nythu mewn llecynnau agored, peryglus. Yn wir, gorau po gyntaf iddynt adael cartref a gwasgaru i ddiogelwch y drysni.

**E V Breeze Jones** (*Yr Adar Mân* - Gwasg y Brifysgol, 1967)

# YMWELIAD Y GWALCH GLAS Â PHWLLHELI



**Yr oedd dydd Llun, Ebrill 27 yn ddiwrnod gwlyb arall ac wrth iddi agosáu at amser cinio nid oedd fawr i edrych ymlaen ato ond prynhawn yn y tŷ. Wedyn fe glywsom sŵn yn yr ardd- yn union y tu allan i'r ffenest', a beth oedd yno ond gwalch glas yn dechrau ar ei ginio. Yr oedd wedi dal colomen ac yno y buodd o yn gwledda am awr a thri chwarter.**

Nid oedd ein presenoldeb ni yn y ffenest' yn mynd i'w symud, na sŵn y camera, na'r dyn drws nesaf yn mynd allan yn ei gar, nac ychwaith sŵn y postman. Yr oedd hwn yn bryd rhy dda i'w golli.



Diddorol oedd clywed ymateb pobl i'r lluniau. Yr oedd y lluniau yn codi pwys ar nifer o bobol - hyd yn oed rhai â diddordeb mewn natur yn gofyn pam na wnaethom ei anfon i ffwrdd.

Yr oeddem ni ar fin eistedd i lawr i fwyta'n brechdan gig – pam na ddylai yr hen walch gael gwneud yr un peth? Gwaedlyd ydi natur yn ei hanfod.

**Gareth Jones**

# Y DEWRAF, EIDDILAF O'N HADAR MÔR (ii)

**Mae'r rhan fwyaf o'r adar sy'n nythu mewn tyllau yn y ddaear, neu mewn agennau mewn creigiau neu waliau, yn dodwy wyau gwynion neu wyau sydd bron iawn yn wyn, ac nid yw'r pedryn drycin yn eithriad. Mae'r ŵy'n edrych yn hollol wyn ond os delir ef at y golau, gwelir bod yna gylch o smotiau cochfrown ym mhen lletaf yr ŵy. Bydd y smotiau hyn yn pylu wrth i'r cyfnod deor fynd rhagddo. Maint yr ŵy, ar gyfartaledd, yw 28x21mm. Os collir hwn yn y dyddiau cyntaf, efallai y dodwyir un arall. Fodd bynnag, os collir yr ŵy yng nghanol y cyfnod deor, ni all yr iâr ddodwy eto oherwydd y newidiadau yn ei chorff**.



*Pedryn drycin yn cerdded ar y môr – fel Pedr gynt (llun: Google Images)*

Sylwodd Lockley fod y cyfnod deor yn amrywio rhwng 38 a 40 diwrnod, sef 39.5 diwrnod ar gyfartaledd. A phan gynhaliodd Peter Davis ei ymchwiliadau ef yn y 1950au, roedd y cyfnod ronyn yn hwy, sef 40.6 diwrnod.

Gall embryo pedryn drycin oroesi am nifer o ddyddiau os bydd yn oeri ond ni fydd yn goroesi, fel rheol, os esgeulusir yr ŵy am fwy na 7-10 diwrnod yn olynol. Gan amlaf, cymer lai na 30 awr i'r cyw dyllu drwy'r plisgyn â'i ddant ŵy a dod allan yn llwyr. Bydd un rhiant yn aros i'w gadw'n ddiddos am yr wythnos gyntaf ac er fod ganddo fanblu i'w gadw'n gynnes, byddai tymheredd ei gorff yn disgyn i dymheredd yr awyr pe bai'n colli gwres corff ei rieni yn y cyfnod cynnar hwn. Cyn pen wythnos, bydd tymheredd ei gorff bron yn gyfuwch â'u tymheredd hwy.

Mae'r cyw newydd-anedig yn pwyso oddeutu 5-6g ac mae'n ddall. Weithiau, bydd ei lais egwan i'w glywed hyd yn oed cyn iddo dorri drwy'r plisgyn ac, yn ôl Lockley, mae'n debygol iawn y bydd y rhiant sy'n gori ar y pryd yn ei ateb, er mwyn sefydlu cwlwm cadarn rhyngddynt o'r cychwyn cyntaf.

Anwybyddir y plisgyn gwag yn llwyr. Fe'i gwthir o'r neilltu a bydd y cyw'n dechrau ymestyn ei goesau a'i wddf. Ymhen tua phum niwrnod, bydd ei lygaid yn agor a chaiff ei bryd cyntaf pan fydd yn ddigon bywiog i ddangos ei fod yn llwglyd, drwy alw'n ddi-baid a chodi'i big at wddf ei fam. Bydd hyn yn ysgogi'r fam i agor ei phig hithau ac i blygu at y cyw i'w alluogi i roi ei big yn ei cheg. Aiff hi ati wedyn i drosglwyddo bwyd i geg y cyw. Dognau o fwyd wedi'i dreulio'n barod, o'r un trwch â chawl neu olew, a gaiff y cyw ar y dechrau, ac fe'i bwydir ddydd a nos.

Yn y cyfnod hwn, mae'r cyw'n llai na phêl tenis bwrdd ac mae'r manblu llwydlas yn weddol hir ar y cefn a'r uwch-adenydd. Yn fuan, bydd yr ail fanblu'n dechrau tyfu ac erbyn diwedd y drydedd wythnos, bydd y

cyw'n edrych fel pwff powdro llwyd! Yn 50 diwrnod oed, bydd wedi magu ei blu llawn a bydd lliw a phatrwm y rhain yn hynod o debyg i rai'r oedolyn.

Rhyfedd meddwl bod y bychan yn byw ar yr un math o fwyd ag y gwna anifail mwya'r byd, y morfil walbon – sef molysgiaid, perdys, pysgod mân a môr-lewys. Mae digonedd o'r rhain mewn moroedd oer a thymherus ble y bydd gwyntoedd a cheryntau cryf yn achosi i'r dyfroedd ymchwyddo a gyrru organebau planctonig i'r wyneb.



*Y Pedryn a'i gyw*
*(llun: Pierandrea Brichetti)*

Pan fydd y cyw'n medru cynnal ei wres corff ei hun, gall y ddau riant dreulio'r dydd yn casglu digon o fwyd iddynt eu hunain a digon i roi i'w cyw yn ystod y nos. Yn naturiol, bydd ef yn gwneud y cynnydd mwyaf pan fydd y naill riant a'r llall yn dod â bwyd iddo yn ystod y nos ond, yn y seithfed wythnos, bydd nifer yr ymweliadau hyn yn lleihau.

Yn ystod ei gyfnod yn y nyth (rhwng 61 a 62 o ddyddiau), caiff y cyw tua 310g o fwyd. Bydd ar ei drymaf (42g) tua'r 50fed diwrnod, a'r adeg honno, bydd yn llawer trymach na'i rieni (sy'n pwyso 28g ar gyfartaledd). Bydd wedi ymbesgi digon ac yn barod i hedfan allan i'r môr rhwng diwrnod 54 a diwrnod 64.



*Cyw pasgedig, fel pelen o fflyff.*
*Mae angen iddo gadw'n gynnes am y bydd yn cael ei adael ar ben ei hun am gyfnodau hir. (llun: Google Images)*

Yn ôl Lockley, pan ddaw o'i nyth am y tro cyntaf, gall hedfan o fewn deng eiliad. Gedy dywyllwch cynnes ei nyth a hedfan i ganol gwyntoedd egr ac oerni'r môr agored heb iddo (yn wahanol i gywion adar drycin Manaw) gael cyfle i hyd yn oed ymarfer ei adenydd yn iawn. Bydd yn mentro arni ar ôl cyhydnos yr hydref gan amlaf, ar noson glaear ddiwedd Medi neu yn ystod mis Hydref, ac er na ddaw allan i'r awyr agored cyn hynny, mae'n rhaid ei fod yn ymarfer rhywfaint ar ei adenydd yn ei nyth cyfyng, ac yn oelio ei blu yno hefyd.


Gwelodd Lockley boblogaeth pedrynod Ynys Sgogwm yn fwy na dyblu yn ystod yr hanner canrif er pan ddechreuodd ymchwilio iddynt. Un rheswm am y cynnydd oedd bod yr adar yn cael eu gwarchod o'r adeg yr aeth ef i fyw a gweithio yno. Hefyd, rhoddwyd y gorau i ffermio ar yr ynys

ac, o ganlyniad, roedd y tyllau a'r agennau yn y cloddiau pridd ar gael i'r pedrynod nythu ynddynt. Rheswm arall, ym marn Lockley, yw bod pedrynod drycin (fel yr adar tiwbdrwyn eraill) yn gallu osgoi'r llygredd olew sydd yn y moroedd yn llawer gwell nag y gall adar fel y palod, y llursod a'r gwylogod sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn nofio ar wyneb y môr.

Un darganfyddiad arwyddocaol a wnaeth, wrth osod ei 'giatiau' yn y fynedfa i nythod y pedrynod, oedd bod y rhieni'n rhoi'r gorau i fynd â bwyd i'w cyw ac, mewn gwirionedd, yn ei adael yn amddifad ychydig nosweithiau (hyd at saith noson) cyn i'r bychan fentro ar ei ehediad cyntaf. Darganfu Lockley fod adar drycin Manaw'n gwneud hynny hefyd, er mwyn gorfodi'r cywion i adael eu nythod ac ymorol amdanynt eu hunain.

Darganfu hefyd fod pedrynod drycin yn teithio'n eithriadol o bell pan fyddant yn mudo i rannau cynhesach o'r byd dros fisoedd y gaeaf. Rhwng Tachwedd a Ionawr, gwelir llawer ohonynt wrth arfordir Mauritania a glannau gorllewinol Affrica i'r gogledd o'r Cyhydedd. Pedrynod ifanc yw'r rhain; bydd yr oedolion profiadol yn hedfan yn llawer pellach i'r de nes cyrraedd Trofan yr Afr ac arfordir Namibia.

Gwyddid ers cryn amser bod yna niferoedd mawr o bedrynod drycin Ewropeaidd yn ymgasglu ar hyd arfordir De Affrica ond ni wyddid, cyn cyfnod Lockley, o ble'n union yr ymfudai'r rhain nes y canfuwyd, yn eu plith, chwech o bedrynod drycin o



*R M Lockley y natruriaethwr ac awdur (llun: Oriel Luniau Genedlaethol)*

Ynys Sgogwm!

Mae'r pellter o nythleoedd mwyaf gogleddol y pedrynod (sef Ynysoedd Westmann yng Ngwlad yr Iâ ac Ynysoedd Lofoten oddi ar arfordir Norwy) i Benrhyn Gobaith Da yn Ne Affrica yn tua 14,000 cilometr. Gallwn ychwanegu 1,200 cilometr arall at hyn yn achos y pedrynod sy'n cyrraedd Cefnfor India ac arfordir Natal. Dyna daith 30,000 cilometr. Ond pellter ar bapur yn unig yw hynny; o ystyried yr hedfan igam-ogam a'r chwilio eratig am fwyd ar wyneb y môr, gellid yn ddiogel treblu'r cyfanswm i o leiaf 100,000 cilometr y flwyddyn, yn ôl Lockley.

Ond sut ar wyneb y ddaear y maent yn canfod eu ffordd mor gywir a chyflym, yn enwedig dros foroedd eang sydd, i'n llygaid ni, fel diffeithwch o ddŵr heb unrhyw nodweddion amlwg arno? Yr esboniad mwyaf credadwy, ym marn Lockley, yw bod gan adar sy'n mudo dros bellteroedd maith allu cynhenid i

ganfod y ffordd drwy ddilyn yr haul a'r sêr mor union gywir ag y gall dyn chwilio'i ffordd drwy ddefnyddio offer arbenigol megis cwmpawd, siartiau, cyfrifiaduron ac ati. Yn ogystal â hynny, mae'n rhesymol tybio bod gan adar hefyd ryw fath o gloc mewnol sy'n eu galluogi i reoli amseriad eu symudiadau dyddiol yn ôl safle newidiol yr haul yn ystod y dydd a safleoedd y lleuad, y sêr a'r planedau yn y nos.

Ceisiodd Lockley fras gyfrifo cyflymder hedfan y pedrynod ar eu siwrnai i ddeheudir Affrica. Daeth i'r casgliad mai mymryn dros 50 cilometr (30 milltir) yr awr oedd y cyflymder cyfartalog. Pe bai'r pedryn yn cynnal y cyflymder hwn am ddiwrnod 12-awr (gan ganiatáu 12 awr ar gyfer bwyta a gorffwyso), byddai'n hedfan 600 cilometr y dydd. Gallai, felly, ddychwelyd i Sgogwm o ddeheudir Affrica cyn pen 23 diwrnod. Drwy ganiatáu 25 y cant o amser ychwanegol iddo ymdopi â gwyntoedd croes a rhwystrau eraill, cymerai tua mis iddo hedfan o haf hwyr De Affrica i haf cynnar Cymru. Gorchest anhygoel i aderyn mor fach!

Credir y caiff tua 10% o bedrynod ifanc eu difa gan greaduriaid ysglyfaethus yn ystod y cyfnod mudo ac y caiff tua 10% arall eu trechu'n llwyr gan ddrycinoedd yr hydref. Beth, felly, yw hyd oes pedryn drycin ar gyfartaledd? Yr unigolyn hynaf y gwyddai Lockley amdano oedd un a fodrwywyd yn oedolyn yn 1950 ac a welwyd am y tro olaf yn 1969. Roedd wedi byw am o leiaf 20 mlynedd, felly.

Ar ôl treulio dwy flynedd gyntaf eu bywyd ym moroedd is-drofannol Gorllewin Affrica, bydd y rhai ifanc yn hedfan i olwg Ynys Sgogwm ond, fel rheol, ni fyddant yn glanio ar yr ynys tan y flwyddyn ddilynol (pan fyddant yn deirblwydd oed). Bydd rhai ohonynt yn dechrau chwilio am gartref parhaol yno pan fyddant yn bedair oed, gan gyfarfod yno eto pan fyddant yn bum mlwydd oed. Os llwyddant i ddod o hyd i lecyn addas a diogel i nythu bryd hynny, bydd yr iâr yn dodwy am y tro cyntaf, a bob blwyddyn o hynny ymlaen, bydd y pâr yn dychwelyd i'r un nyth.

Y llynedd, adenillodd Ynys Sgogwm ei statws fel gwylfa adar, yn sgil ymdrechion dygn Cyfeillion Ynysoedd Sgomer a Sgogwm a gwaith caled iawn wardeiniaid ifanc, newydd yr ynys a fu'n warchodwyr adar ar Enlli cyn symud yno. Ers dyddiau Lockley a'i ddefnydd o goesau matsis a hen wifrau i gynnal astudiaethau gwyddonol o adar, cafwyd datblygiadau syfrdanol ym maes y dechnoleg newydd. O ganlyniad, mae gan fugeiliaid newydd Sgogwm doreth o adnoddau cyfoes i'w cynorthwyo wrth eu gwaith, yn ogystal â thraddodiad gwirioneddol glodwiw i'w gynnal a'i ddatblygu. Pob llwyddiant iddynt; maent yn ei haeddu.

**Ieuan Bryn**

**Hen ddywediad:** *"Yn ara' bach mae dal iâr; rhedeg fel diawl i ddal ceiliog!"*

# TAITH DYFFRYN CONWY - 17/1/2015

**Cychwyn ger pont hardd ac enwog Inigo Jones yn Llanrwst a dilyn y llwybr ar hyd glan ddwyreiniol yr Afon Conwy tua'r gogledd. Roeddem yn lwcus o dywydd braf a hithau wedi bod mor stormus yn ddiweddar. Amryw o adar cyfarwydd – gwylanod yn cael bath yn nŵr bas yr afon, chwiaid gwylltion, pâr o elyrch, robin a llwyd y gwrych yn y llwyni. Dod ar draws corff bwncath yn uchel o'r afon. Druan bach, roedd o'n amlwg wedi ei 'sgubo i lawr o rywle am ei fod ymysg dail a'r brigau oedd wedi eu gadael gan yr afon yn ei gorlif yn lled ddiweddar.**



*Crafanc yr hen fwncath druan*

Croesi'r bont droed ryw ¾ milltir i lawr y dyffryn i'r dolydd y tu draw. '*Canada Land*' oedd hwn i'r hogia oedd yn trin y tir i'r *War Ag* ar un adeg am ei fod mor wastad. Ar ein ffordd yn ôl yn gylch, gwelsom chwaden frongoch, bili dowcar, dau grëyr glas, bwncath (un byw y tro hwn) a dwy sgrech coed.

I lawr y dyffryn a ni i Gaerhun. Ryw hanner gobeithio gweld y gylfin braff yn y coed yw o gwmpas yr hen eglwys. Ond ddim heddiw, a 'doedd dim aeron coch ar y coed i'w ddenu 'chwaith. Roedd y cnwd gwyn o eirlysiau yn y fynwent yn fendigedig a'r Eglwys ei hun yn hyfryd oddimewn. Buom yn edrych ar olion amlwg y gaer Rufeinig oedd o dan ein traed cyn mynd am dro byr i lawr y ffordd. Roedd dipyn mwy o adar i'w gweld ar yr afon: 25 o wyddau Canada, 63 chwaden yr eithin, 6 cornchwiglen, pâr o elyrch, ychydig o wylanod a 5 crëyr glas.

Draw â ni wedyn i eglwys Llanbedr y Cennin, eto i chwilio am y gylfin braff ac eto heb lwc. Pensaernïaeth yr eglwys oddimewn, fel yng Nghaerhun, yn hyfryd. Gorffen ein taith yn y caffi ym melin wlân Trefriw efo cacen a phaned – ydan, rydan ni wedi mynd yn rêl bolgwn ar y teithiau 'ma yn ddiweddar!

**Elfyn Lewis, Ieuan Bryn a'r aderyn prin**

Wel am lwc! Criw o ardal Porthmadog yn aros ar Ynys Enlli yn ail wythnos Mehefin a dau ohonynt (aelodau selog o Gymdeithas Ted) yn darganfod **Bras Cretzschmar am y tro cyntaf erioed** yng Nghymru (aderyn o dde-ddwyrain Ewrop fel arfer). Cewch fwy o'r hanes o lygad y ffynnon yn y rhifyn nesaf o *Lygad Barcud*.



*Llun Elfyn Lewis o'r Bras*

# TAITH DYFFRYN MAWDDACH, CHWEFROR 13eg



**Cawsom groeso mawr ym mocs signal Pwllpenmaen gan Rhys Gwyn. Dangosodd inni gorff minc a ddaliwyd mewn trap a'i ddifa'n ddiweddar a hefyd, druan bach, corff pathew. Dyma'r tro cynta i amryw o'r criw weld pathew yn fyw neu'n farw; mae'n llygoden fechan felyngoch, annwyl iawn.**



Wrth inni gychwyn, daeth haid o bila gwyrdd i'r llwyni gerllaw ac wedi inni groesi'r ffordd a dechrau dringo'r allt goed fe ddaeth delor y cnau i'n bygwth efo'i 3 neu 4 chwibaniad uchel, haid o ditws cynffon hir a bronfraith i daflu golwg arnom ni.

Wedi cyrraedd Maes y Barcud ar ben yr allt roedd y tir yn agor allan i roi golygfeydd hyfryd i bob cyfeiriad: cloddiau cerrig hynafol, hen goed mawr a chreigiau yn brigo yma ag acw.

Draw heibio Ty'n Llwyn gan sylwi ar walch glas, bwncath ac ychydig ymhellach ymlaen, hebog tramor. Ymlaen heibio Cae'n Coed ac i lawr at Abergwynant yn y gwaelod, lle tyfai coed *Wellingtonia* anferth. Sgrech goed, siglen lwyd a bronwen y dŵr yn yr afon ac wrth ddilyn llwybr yr hen reilffordd yn ôl at y ceir, gweld 2 grëyr bach gwyn, 30 chwiwell, 8 pibydd coesgoch, 2 gwtiad torchog, 9 gŵydd Canada a 2 chwadan eithin ar lannau'r afon ac ar y morfa.

Diwrnod hyfryd.

# TAITH MARTIN MERE - MAWRTH 7fed



**Bu bron inni ohirio'r daith am fod y rhagolygon tywydd yn ddrwg, ond dal ein tir a wnaethom. Roedd yn wlyb wrth i ni gychwyn a'r gwynt mor gryf ar hyd yr A55 nes bod y bws yn cael ei hyrddio. Ond drwy ryfeddol-wyrth, erbyn cyrraedd Martin Mere, roedd y gwynt wedi gostegu a daeth yn haul braf.**

Llwyddwyd i gadw efo'n gilydd am sbel ond chwalu a wnaethom yn y diwedd. Pawb â'i ddiddordeb ei hun: rhai am weld y gwyddau a'r chwiaid ecsotig o bob cwr o'r byd ac eraill am fanteisio ar y cyfleon gwych sydd yno i fynd yn agos at yr adar brodorol yn y pyllau i dynnu lluniau.



*Cambig*

Ymysg yr uchafbwyntiau oedd gweld ugain o'r cambig (aderyn logo'r RSPB) yn y pyllau pellaf ac, wrth gwrs, bwydo'r dros 2,000 o elyrch y gogledd sy'n gaeafu yno. Ffermwyr yr ardal sy'n cyflenwi'r grawn i fwydo'r adar am eu bod wedyn yn tueddu i aros ar y warchodfa yn hytrach na chwalu allan a difrodi egin cnydau'r gaeaf.



*Lleian wen*

Pawb yn ymgynull ganol y p'nawn am baned a tships ar y teras y tu allan i'r caffi mewn haul cynnes. Wrth inni ddynesu at adref diryw-iodd y tywydd a chlywsom ei bod wedi bod yn hen ddiwrnod digon annifyr a stormus yma - *Ha! Ha*!

# TAITH COED ’LENTHRYD - EBRILL 18fed




**Dan arweiniad Dewi, cawsom ddiwrnod bendigedig yn crwydro’r ochrau uwchben Dyffryn Maentwrog dan haul tanbaid y gwanwyn. Cychwynsom oddi wrth y pwerdy sy’n dal i gynhyrchu trydan ‘gwyrdd’ ac i ffwrdd a ni heibio’r bont hynafol.**

Cawsom gip ar fronwen y dŵr yn gwibio ar hyd yr afon cyn i ni ddechrau dringo’r llwybr serth sy’n codi drwy’r coed sydd wedi eu gwarchod gan Coed Cadw. Yr oedd sawl dryw yn canu yn y brwgaits o gwmpas y llwybr, ond yn cuddio yn byr dda a daeth robin goch i’n gweld pan wnaethom stopio i ddal ein gwynt. Heblaw am fwyalchen, ‘doedd fawr iawn o adar eraill i’w gweld yn y canghennau uwch ein pennau ac, yn annisgwyl, doedd dim sôn am y gôg drwy’r dydd.

Yr oedd titw tomos yn gwibio yn ôl ac ymlaen gyda deunydd nythu i’w roi mewn twll mewn hen dderwen yn ymyl y man ble y cawsom ein cinio ar ben yr allt. O’r fan honno ymlaen gwelsom dipyn mwy o adar; ar ôl gaeaf hir, pleser oedd clywed cân a gweld prysurdeb y siff saff a thelor yr helyg. Arwyddion pendant o’r gwanwyn. Gwelsom hefyd bila gwyrdd, titw mawr, ji binc, a llwyd y gwrych. Gwelsom hefyd ddringwr bach a chlywsom gân arbennig y telor penddu.


Fel arwydd pellach o ddyfodiad y gwanwyn gwelsom dri gloynod byw-trilliw bach, mantell goch a mantell paun.


*Telor yr helyg*

Gorffennwyd taith gofiadwy gyda phaned a chacen yn yr Oakeley Arms.

# TAITH ABERGWYNGREGYN - MAI 16eg

**Diwrnod hynod braf er ychydig yn wyntog; blodau'r gwanwyn o gwmpas ein traed a'r coed yn llawn caneuon adar- siff-saff, robin, ji binc, titws ayyb. Golwg dda ar ddwy fronwen y dŵr ar gerrig yr afon yn bwydo cyw oedd yn amlwg newydd adael y nyth a siglen lwyd yn prysur hela pryfed i'w theulu. Yn uwch i fyny roedd telor penddu, telor helyg, gwybedog brith a bronfraith yn tiwnio. Bwncath a chudyll coch uwchben, crëyr glas yn codi o'r afon.**



*Bronwen y dŵr a'r cyw*

Wrth basio derwen fawr sylwi ar haid o rywbeth tebyg i wybed duon yn dawnsio ar ei brig. Bob tro y deuai'r haul i wenu rhwng y cymylau a'r awel i ostegu fymryn, fe godai'r pryfed i'r awyr eto. Gwyfyn bychan gwyrdd tywyll symudliw efo cyrn hir gwyn oedd yma yn dawnsio'n dorfol i ddenu cymar (fel yn y dawnsfeydd gwerin ers talwm). Un o'r micro-wyfynod: yr hirgorn gwyrdd (*Adela reaumurella*) oedd yma.

Cân tingoch rywle ym mrigau uchaf coed ynn tal a dryw yn uchel seinio ger y Rhaeadr Fawr. Newydd inni droi ein cefnau ar y rhaeadr, wel dyma syrpreis, gwialchen fynydd yn gwibio heibio a glanio ryw 30 llath i ffwrdd! Roeddem yn lwcus i gael golwg mor dda ar y ceiliog du hardd efo'i hanner lleuad gwyn yn crogi ar ei frest. Hwn yn amlwg wedi



*Mwyalchen y mynydd - seren y diwrnod*

arfer efo pobl ac ddim hanner mor swil ac y byddan nhw fel arfer. I ffwrdd a fo i'r marian mawr ar y llethrau a buom yn ei wylio am sbel cyn iddo ddiflannu.

Gorffen diwrnod da iawn yng nghaffi cymunedol pentref Aber.



*Siglen lwyd yn bwydo'r cyw*

# CUDYLL COCH PEN LLŶN (DIWEDDARIAD)



**Fel y gwnaethom adrodd yn y rhifyn diwethaf o Lygad Barcud, ers tair blynedd yr ydym wedi cael y fraint o gadw llygad ar nyth pâr o gudyll coch sy'n nythu ger un o draethau gogleddol Pen Llŷn. Ar ôl misoedd hudolus o'u gwylio, fe wnaethom ffarwelio â'r cywion am y tro olaf ar 23ain o Orffennaf. Ar ôl hynny, welsom ni ddim golwg arnynt – a dim ond ambell i gip o hirbell ar y rhieni. Byddai yn hynod ddiddorol cael gwybod beth ddigwyddodd i'r cywion: os gwelwch gudyll coch efo band melyn ar ei goes, rhowch wybod i ni ar unwaith!**

Mor gynnar â dechrau Ionawr, fe welsom adar drycin Manaw yn dychwelyd i'r clogwyni ac yn 'bachu' eu lle ar gyfer nythu ymhen misoedd, wedyn ymhen mis, fe ddechreuodd y cigfrain ar eu nythod, mawr, blêr (ond aflwyddiannus a fu y rheiny eleni).

Ar y 15fed o Fawrth, denodd diwrnod go braf ni yn ôl i'r ardal, a beth a welsom ond ein 'hen gyfaill' yn ei ôl; ond o edrych yn fanwl, ar ben polyn ffens, yr oedd cudyll arall. Yr oedd ceiliog y cudyll coch yn arddangos a'r iâr yn edrych ar y sioe. I lawr a fo ar ei chefn ... a dyna nhw'n paru. Yn sicr, yr oedd y berthynas wedi eu hail-greu. Yr oedd hi'n edrych yn addawol am haf diddorol arall i ni.



*Y ceiliog newydd ddychwelyd efo llygoden i'r iâr*

Er gwaethaf hyn, welsom ni fawr o'r cudyllod am y mis nesaf.

Wedyn, ddiwedd mis Ebrill, fe welsom y ceiliog a'r iâr yng nghyffiniau yr un twll yn union a'r llynedd ac ar y 1af o Fai, yr oedd ŵy wedi ei ddodwy ac erbyn y 7fed o Fai yr oedd yr iâr yn eistedd ar bedwar ŵy.



*Mai 7fed - union yr un olygfa â'r llynedd*

Ond... pan wnaethom ddychwelyd ymhen wythnos, cawsom siom enfawr. **Yr oedd y nyth yn hollol wâg.**

Ai dyna fyddai diwedd yr hanes am eleni?

Ond nid oedd yr iâr ymhell. Yr oedd yn aros ar y creigiau cyfagos i'r nyth ac yn amlwg yn magu ei nerth i ail-ddodwy ac yr oedd y ceiliog yn hela ac yn dod â bwyd iddi. Ond fe boenem y byddai beth bynnag a reibiodd y nyth y tro cyntaf yn sicr o ddychwelyd eilwaith.

Ar yr 16eg o Fai fodd bynnag, fe'i gwelsom wedi swatio wrth dwll arall



yn y graig – safle llawer mwy diogel y tro hwn, ac erbyn yr 28ain yr oedd wedi dechrau eistedd unwaith eto.



*Mai 16eg- y nythfa newydd*

Mae hyn yn go hwyr yn y tymor ar gyfer dodwy – ond yn 2013, cafwyd yr un profiad, a'r tro hwnnw fe lwyddwyd i fagu dau gyw yn llwyddiannus. Hei lwc y tro yma eto felly!

**Gareth a Gwennan Jones**

**Y DIWEDDARAF: 15/6/2015**

***Siom fawr!*** Maent wedi ***gadael*** y nyth a'r wyau. ***Methiant*** am eleni.

# RHAGLEN MEDI-RHAGFYR 2015

Gyda'r newid i ***ddau*** rifyn o Lygad Barcud mewn blwyddyn yn hytrach na thri, y mae yn anoddach cyhoeddi Rhaglen Weithgareddau gynhwysfawr. Mae yn bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob dim a fydd yn digwydd. (Anfonwch neges syml i pwllheli@gmail.com )

**Medi 21 neu 22**
Taith diwrnod i **Enlli** (os bydd diddordeb a'r tywydd yn ffafriol).
*Cysylltwch i ddatgan eich diddordeb*. Bydd manylion yn dilyn drwy e-bost.

**Hydref 24**
Y **Gynhadledd Flynyddol.**
Cynhelir ym Mhlas Tan y Bwlch. Amser cychwyn, rhaglen a manylion i ddilyn.

**Tachwedd 7**
Taith yn ardal **Betws y Coed** dan arweiniad Rhodri Dafydd.
Cyfarfod ger yr orsaf **SH795 566**.

**Tachwedd 21**
Taith yn ardal **Niwbwrch**, Sir Fôn dan arweiniad Graham Williams.
Cyfarfod ym maes parcio Malltraeth **SH407 687**.

**Rhagfyr 5**
Taith o gwmpas **aber yr Afon Fawddach**.
Cyfarfod ger cwt y Bâd Achub yn y Bermo **SH611 157**.

**Rhagfyr 10**
Noson Mins Peis ym Mhlas Tan y Bwlch. Siaradwr i'w gadarnhau.

**Rhagfyr 19**
Taith o gwmpas y **Cob a Borth y Gêst**
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob **SH571 384**.

**Ionawr 23**
Taith yn ardal **Penmon a Biwmares** gyda Gwen Richards
Cyfarfod ym maes parcio Traeth Llanddona **SH566 806**.

**Teithiau i gyd yn cychwyn am 10-30yb. a'r sgyrsiau am 7-30yh.**

Cewch y manylion diweddaraf am ein gweithgareddau ar ein gwefan-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**